



# Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 8 Ionawr 2019 am 6.00yh  
yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 8 January 2019 at 6.00pm  
at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

**Presennol/Present—Y Cynghorwyr/Councillors** John Adams-Lewis (*yn y gadair/in the chair*), Clive Davies, Graham Evans, Elaine Evans, Marilyn Farmer, Debra Griffiths, Richard Jones, Wyn Jones, Siân Maehrlein, Catrin Miles, Steffan Morgan, Yvonne O’Neill, Trystan Phillips, Mr Wynford Jones (*clerc/clerk*).

## 1. Croeso’r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair’s Welcome and Personal Matters.

**Croesawodd y Maer, y Cyng. John Adams-Lewis, bawb i’r cyfarfod a dymunodd flwyddyn newydd dda i bob un. Llongyfarchodd y canlynol am gael eu cydnabod yn Rhestr Anrhydeddau’r Flwyddyn Newydd: Jennifer Ann Ladd, Llangoedmor, bu’n gweithio yn uned fân anafiadau Ysbyty Aberteifi hyd ymddeol yn ddiweddar; anrhydeddwyd hi am ei gwasanaeth i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gyda’r BEM (Medal Ymerodraeth Brydeinig) ar ôl gweithio yn yr ysbyty am dros ugain mlynedd. Yn yr un modd anrhydeddwyd Ms Sonia Davies, cynorthwy-ydd y Prif Weithredwr ar Gyngor Sir Ceredigion, sydd wedi ei derbyn fel Aelod o Drefn Fictoraidd Brenhinol (MVO) am ei gwaith fel clerc i Arglwydd Raglaw Dyfed. Llongyfarchwyd Ysgol Uwchradd Aberteifi ar gynhyrchiad y Nadolig, sef “Grîs”; bu’r perfformiadau o’r radd uchaf a chafwyd mwynhad gan y niferoedd a fynychodd neuadd yr ysgol. Yn yr un modd, llongyfarchwyd Ysgol Gynradd Aberteifi ar gynhyrchiadau rhagorol a gynhaliwyd yn Theatr Mwldan a gwasanaethau yn Eglwys y Santes Fair. Anfonwyd hefyd gyfarchion cynnes y cyngor at Ganolfan Plant Jig-so am ennill y wobwr Achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl unwaith eto.**

**Gwelwyd miloedd o bobl ar strydoedd y dref ar nos Wener, 7 Rhagfyr yn mwynhau Parêd Llusernau Enfawr Aberteifi. Er bod y noson yn dymhestlog, roedd yn sych a gwelwyd cannoedd o lusernau a gynhyrchwyd fel canlyniad i weithdai cyhoeddus a gynhaliwyd tan oruchwyliaeth swyddogion Theatr Byd Bychan Aberteifi a Phartneriaeth Canol y Dref. Croesawyd yn ôl i’r dref ar ddiwrnod mileinig o Ragfyr y merched a fu’n tynnu’r tractor o Gastellnewydd Emlyn i Aberteifi; llongyfarchwyd hwy ar eu hymdrechion i godi arian at achosion da unwaith yn rhagor.**

The Mayor, Cllr John Adams-Lewis, welcomed all to the meeting and wished everyone a happy new year. He congratulated the following who were recognised in the New Year Honours List: Jennifer Ann Ladd, an emergency nurse practitioner at the minor injury unit of Cardigan Hospital until her retirement recently; Jennifer was awarded the British Empire Medal for services to Ceredigion and Hywel Dda University Health Board; she’d worked at Cardigan Hospital for more than 20 years. Likewise, Ms Sonia Davies, the personal assistant to the Ceredigion County Council Chief Executive, was awarded the MVO (Member of the Victorian Order) for her services as clerk to the Lord Lieutenant of Dyfed.

The staff and pupils of Ysgol Uwchradd Aberteifi were congratulated on their superb performance of the Welsh version of “Grîs” (Grease); the performances were of the highest quality and enjoyed by full houses in the school hall. Ysgol Gynradd Aberteifi held their performances at Theatr Mwldan and the performances were also of a high standard, as were

their Christmas services held at St Mary's Church. Jig-So Children's Centre in Cardigan has again been awarded the Investors in People accreditation – the international standard for people management.

Thousands of people thronged the streets of Cardigan on Friday, 7 December to enjoy the annual Giant Lantern Parade spectacle as hundreds of lanterns were paraded through the town during a stormy, but thankfully, dry evening. The lanterns were created by organisations supported by Small World Theatre and the Town Centre Partnership. On a heinous December afternoon, the girls heaving the tractor from Newcastle Emlyn to Cardigan were welcomed home after completing another marathon in their efforts to raise funds for good causes.

**2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng. / Cllr Shan Williams**

**3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.**

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	<i>Holl faterion cynllunio / All planning matters</i>
Y Cyng. / Cllr Clive Davies	<i>Cynllunio / Planning A180580</i>
Y Cyng. / Cllr Richard Jones	<i>Cynllunio / Planning A180580</i>
Y Cyng. / Cllr Steffan Morgan	<i>Cynllunio / Planning A181146</i>

**4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 4 Rhagfyr.**

Confirmation of Minutes of 4 December Council Meeting.

**Tud. 1432, item 2: Roedd y Cyng. Debra Griffiths wedi ymddiheuro am ei habsenoldeb.**

Page 1432, item 2: Cllr Debra Griffiths had apologised for her absence.

**Gyda'r cywiriad uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Graham Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer bod cofnodion cyfarfod 4 Rhagfyr yn gywir.**

With the above amendment, Cllr Graham Evans proposed that the 4 December council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Marilyn Farmer.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.**

**Tud. 1433, eitem 8: Roedd y clerc a'r Cyng. Catrin Miles wedi archwilio'r anfoneb cyn talu Sutcliffe Play. Cafwyd gwybodaeth gan y cwmni bod ei banc (Lloyds) wedi gwrthod derbyn y siec oherwydd ei bod wedi ei hysgrifennu yn Gymraeg. Yn y pen draw bu rhaid i'r cwmni anfon y siec ymlaen i gangen Lloyds yn Aberteifi er mwyn ei thalu.**

Page 1433, item 8: The clerk and Cllr Catrin Miles have scrutinised the Sutcliffe Play invoice and approved payment. The company informed the clerk that their bank (Lloyds) had refused the cheque on the grounds that it was written in Welsh. They ultimately returned the cheque with a pay slip to be paid in at Lloyds Bank in Cardigan.

**6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.**

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

**Dosbarthwyd Dyddiadur y Maer am fis Rhagfyr yn y cyfarfod.**

The Mayor's Diary of Events for December was distributed at the meeting.

**7. Cynllunio / Planning.**

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A181145	Unit 27 Pentood Industrial Estate	Display of signage.	<i>Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad, er sylwyd nad oedd yr arwydd yn ddwyieithog fel a awgrymwyd gan bolisi iaith Gymraeg y cyngor.</i> The council has no objection; it was noticed that the application was retrospective and that the sign would not be bilingual as the town council Welsh language policy recommends.

A181146	Unit 7 Parc Teifi Business Park	Display of signage <b>Os caniateir y cais gan bwyllgor cynllunio'r cyngor sir, bydd y sylwadau a welir yn gyfochrog yn ddilys.</b> <b>If the planning committee approves the application, the observations alongside may be noted.</b>	<i>Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad, er sylwyd nad oedd yr arwydd yn ddwyieithog fel a awgrymwyd gan bolisi iaith Gymraeg y cyngor.</i> The council has no objection; it was noticed that the sign would not be bilingual as the town council Welsh language policy recommends.
A181148	Sunny Bank, Rhydygwin	Proposed bedroom and sun room extensions	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.
A181002	Llysteg, Gwbert Road	Amended plans	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.
A180580	Cambrian Quay	Amended plans: Noise impact assessment report	<i>Cytunwyd trafod y cais yn is-bwyllgor mis Ionawr.</i> It was agreed to discuss the application at the January sub-committee.

## 8. (a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhify Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
1/1/19	Tai Aberteifi Ltd.: Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Rhagfyr / December). Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room Cyfarfod y Cyngor / Council Meeting (4/12/18) Band Lydan (Ionawr) / Broadband (January)	A9 A9 A20	D/D 4659	£250.00 (0.00) £25.00 (0.00) £20.00 0.00
14/12/18	Llinos Jones: Cyfieithu ar y pryd / Simultaneous translation (4/12/18)	A18	4660	£78.30 (0.00)
1/1/19	L. W. Jones: Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Rhagfyr / December)	A5	4661	£763.03 (0.00)
3/12/18	Midshire: Llungopïo / Photocopying	A17	4662	£22.24 (3.71)
30/11/18	M. & E. Pearce: Deunydd i'r goleuadau Nadolig / Material for Christmas lights	B1	4663	£51.65 (8.61)
18/12/18	BT: Ffôn / Telephone	A20	4664	£86.93 (14.49)
3/1/19	Royal Naval Association (Cardigan & District Branch): 1 wooden cross for the fallen of WW1 (Garden of Remembrance, Westminster Abbey)	A23	4665	£5.00 (0.00)
30/11/18	J. D. R. Thomas, C.N. Emllyn: Hurio system sain / Hire of sound system (Remembrance Sunday)	A23	4666	£90.00 (15.00)
7/1/19	M. & E. Pearce: Deunydd i'r goleuadau Nadolig / Material for Christmas lights	B1	4667	£3.93 (0.65)
31/12/18	Bachan Deche / Handyperson (Rhagfyr / December)	A19	4668	£125.40 (20.90)
8/1/19	HMRC: PAYE £572.28, NIC £104.25 (October, November, December 2018)	A16	4670	£676.53 (0.00)

**Cynigiodd y Cyng. Debra Griffiths bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Clive Davies.**

CLlr Debra Griffiths proposed that the above bills be paid; this was seconded by CLlr Clive Davies.

### **Derbyniadau/Receipts:**

10/12/18	Lloyds Bank: Llog / Interest	£2.94
6/12/18	Cyngor Sir Ceredigion County Council: Grant (Pentop)	£9,547.00
6/12/18	Western Power Distribution (Wayleave)	£3.48

## **(b) Adroddiad Ariannol hyd at 31 Rhagfyr / Financial Report to 31 December 2018**

**Roedd adroddiad chwarterol ariannol hyd ddiwedd mis Rhagfyr wedi ei ddosbarthu i'r cynghorwyr ymlaen llaw.**

**Cynigiodd y Cyng. Catrin Miles ac eiliwyd gan y Cyng. Clive Davies bod y cyngor yn cymeradwyo'r adroddiad.**

The quarterly financial report to the end of December had been distributed to members in advance.

CLlr Catrin Miles proposed that the council approves the report; seconded by CLlr Clive Davies.

## 9. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

### (a) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Mae parcio ceir ar gei Tywysog Siarl yn dal i fod yn broblem; disgwylir bod camau yn cael eu cymryd i atal hyn gan y cyngor sir. Mae peryg hefyd ar y grisiau sydd yn arwain at yr ysgraff. Mae angen ailosod y gwregys achub sydd wedi ei cholli ers amser.
- (ii) Canolfan Iechyd Ashleigh: Mae'r cleifion yno wedi derbyn llythyron yn eu hysbysu o'r ganolfan iechyd bydd yn eu derbyn. Mae'n debyg bod rhai cleifion yn dal i aros am gadarnhad.

### (b) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) Cysylltodd y Cyng. Adams-Lewis gyda'r cyngor sir am gyflwr y bolard tu allan i siop Spar yn Heol y Gogledd. Mae'r peryg i'r cyhoedd yn awr wedi ei ddatrys.
- (ii) Mae perchnogaeth y darn o dir sydd ger Felinban yn dal i fod yn ddirgelwch. Mae pryder am y dŵr sydd yn casglu yno fod yn beryg potensial i blant. Rhaid ymchwilio eto i'r berchnogaeth.
- (iii) Cynhelir cyfarfod agored i drafod pryderon y Pwll Nofio ar y safle nos Lun, 14 Ionawr am 7:30yh.
- (iv) Wedi ymdrechion i ddod o hyd i'r teclyn i greu logo'r cyngor ar bapur fod yn aflwyddiannus, mae'r Maer bellach wedi dod o hyd i system i ddatrys y broblem; caiff y brydles ei llofnodi yng nghyfarfod y cyngor ym mis Chwefror.

### (c) Y Cyng. Elaine Evans:

- (i) Mae nifer o gleifion Canolfan Ashleigh yn dal i fod yn anhapus gyda'r argymhellion sydd gan y Bwrdd Iechyd i'w gosod mewn canolfannau cyfagos. Mae'r hawl ganddynt i apelio ac i newid i ganolfan o'u dewis.
- (ii) Mae'r Cyng. Evans wedi cynorthwyo tenantiaid mewn un o aneddau Tai Ceredigion i drefnu gosod ystafell olchi agored yn lle bath yn eu cartref.
- (iii) Derbyniwyd cwynion gan y Cyng. Evans am y dŵr sydd yn cronni ger y plismon spidio yn Williams Terrace. Gofynnwyd iddi dynnu lluniau pan fydd hyn yn digwydd eto.

### (a) Cllr Catrin Miles:

- (i) Parking on Prince Charles quay is an on-going problem; action is expected from the county council to combat this quandary. The steps leading down to the pontoon are hazardous and in need of repair. The lifebelt has not been replaced.
- (ii) Ashleigh Health Centre: Patients have received correspondence with information regarding their future health centres. It was reported that some patients are still awaiting confirmation.

### (b) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) Cllr Adams-Lewis contacted the county council regarding the damaged bollard outside the Spar shop in North Road. The hazard has now been addressed.
- (ii) The ownership of the land alongside Felinban is disputed and the water level during flooding is hazardous to children playing in the area. More research regarding ownership is required.
- (iii) A public meeting will be held at the Swimming Pool on Monday, 14 January to discuss the way forward for the facility.
- (iv) Following the unsuccessful efforts to find the press to emboss the council logo, the Mayor has discovered an alternative method; the lease will be signed at the February town council meeting.

### (c) Cllr Elaine Evans:

- (i) A number of Ashleigh Health Centre patients are unhappy regarding registering with distant centres. Patients have the option of appealing if they so wish.
- (ii) Cllr Evans has assisted a family of tenants of Tai Ceredigion Cyf. to convert their bathroom to a wet room.
- (iii) It has been reported that the speed bumps in Williams Terrace are gathering water indicating that the drains might be blocked. Cllr Evans was requested to photograph the hazard when similar flood conditions persist.

## 10. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
194	CSC / CCC (Gari Jones): <i>Ymateb i bryder y cyngor am drafnidiaeth ddydd y Ffair.</i> Response to the council's concerns regarding traffic in Napier Street on Fair Day.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 7 Rhagfyr.</i> Forwarded to all councillors on 7 December. The department suggested that the most effective way of dealing with concerns during this period would be best taken forward at a local community level, particularly with the school and its governors engaging with pupils and parents and local Community Policing Officers if necessary.
195	CSC / CCC (Stephen Johnson): <i>Hysbysiad o daliad grant Cae Chwarae Pentop.</i> Notification of the payment of the grant for Pentop Playing Field = £9,547.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
196	CSC / CCC (Matthew Collins): <i>Newidiadau arfaethedig i'r cyfyngiadau parcio.</i> Proposed changes to parking restrictions (Church Street and Station Road)	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 13 Rhagfyr.</i> Forwarded to all councillors on 13 December. Cllr Steffan Morgan requested that Ms Katy Spain <i>Rheolwr Gwasanaethau Parcio / Parking Services</i> Manager be informed that the traffic wardens patrol is required on Station Road.
197	CSC / CCC (Eifion Jones): <i>Awgrymiadau'r cyngor sir am ddolenni'r safle we i fwynhau'r amgylchfyd yng Ngheredigion.</i> Suggestions by the county council of website links to enjoy the Ceredigion countryside.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 2 Ionawr.</i> Forwarded to all councillors on 2 January.
198	CSC / CCC (Simon Bray): <i>Ymateb i ymholiadau'r cyngor.</i> Response regarding the council's enquiries regarding street lights in Cardigan.	<i>Cytunwyd anfon y rhestr o'r goleuadau stryd sydd tan oruchwyliaeth cyngor y dref ymlaen at Mr Bray.</i> It was agreed to forward the street lights list under the jurisdiction of the town council onto Mr Bray for action.
199	CSC / CCC (Andrew Ginn): <i>Ymgynghoriad am 12 wythnos o 2 Rhagfyr 2018 am ddarpariaeth toiledau.</i> Consultation period of 12 weeks from 2 December regarding the provision of toilets across Wales. The Public Health (Wales) Act 2017 requires local authorities to publish a local toilet Strategy for its area.	<i>Mae darparu toiledau a mynediad iddynt yn fater sy'n effeithio ar iechyd y cyhoedd.</i> The provision of and access of toilets is an issue that affects public health. <i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 5 Rhagfyr.</i> Forwarded to all councillors on 5 December. <i>Gofynnwyd i'r cyngorwyr lanw'r holiadur.</i> Councillors were requested to return the completed questionnaire.
200	CSC / CCC (Elin Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure: Gothic Terrace, Feidrfair: 20/1/19 – 8:00am-4:30pm.</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 8 Ionawr.</i> Forwarded to all councillors on 8 January.
201	Mr Jim Marsden: Afon Teifi Fairways Ltd.: <i>Eglurhad ganddo am berchnogaeth a gofal afon Teifi.</i> Explanation regarding ownership of the river Teifi and responsibility for its maintenance and care.	<i>Diolchwyd i Mr Marsden am ei ymateb. Gan y rhagwelir mai'r cyngor sir sydd â chyfrifoldeb am gyflwr y rhan yna o'r afon, cytunodd y Cyng. Catrin Miles gysylltu â swyddogion yno. Cytunodd y Cyng. Clive Davies gysylltu â swyddog o Gyfoeth Naturiol Cymru am fwy o fanylion.</i> Mr Marsden was thanked for his response. As it is noted that the county council has responsibility for this section of the river, Cllr Catrin Miles agreed to contact the appropriate officer. Cllr Clive Davies agreed to contact Natural Resources Wales for additional information.
202	<i>Llywodraeth Cymru: Manylion am gamau nesaf wrth weithredu dull polisi ar gyfer y sector cymuned a chynghorau tref.</i> Welsh Government: Information regarding more detail about the Welsh Government's next steps in implementing its policy for the community and town council sector.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 2 Ionawr.</i> Forwarded to all councillors on 2 January.
203	<i>Cronfa Leol Eisteddfod Ceredigion 2020: Cyfarfod i drafod dulliau codi arian.</i> Meeting to consider fund-raising suggestions, 7/1/19, Castell Aberteifi, 7.00yh.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 13 Rhagfyr.</i> Forwarded to all councillors on 13 January. <i>Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 24 Ionawr.</i> Next meeting will be held on 24 January



204	Menter Aberteifi Cyf. (Mr Julian Beynon-Lewis): <i>Copi o lythyr at y cyngor sir gydag awgrymiadau am leoli'r canolfan twristiaeth.</i> Copy of letter forwarded to the county council with suggestions for locating the Tourist Information Centre in Cardigan.	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi cynnig Menter Aberteifi i leoli'r gwasanaeth yn Neuadd y Dref.</i> The council supports the offer of Menter to locate the service in the Guildhall.
205	Menter Aberteifi Cyf.: <i>Ymateb ynglŷn a phroblemau mecanyddol cloc Neuadd y Dref.</i> Response as to mechanical problems with the Guildhall clock.	<i>Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Marilyn Farmer bod Menter wedi derbyn amcangyfrif o £2,000 am gywiro'r cloc; yn ychwanegol, mae pris cywiro'r lifft yn Neuadd y Dref oddeutu £3,000.</i> Cllr Marilyn Farmer reported that the repair to a single cog on the clock would cost £2,000. It was recommended by members that Menter consults with M. & E. Pearce for a quotation. In addition, the quotation to repair the lift is approx. £3,000.
206	<i>Grŵp Eglwysi Aberteifi: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i'r Gwasanaeth Carolau.</i> The Cardigan Group of Churches: An invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Carol Service at St Mary's on 16 December.	<i>Darllenodd y Maer rannau o'r ysgrythur yn y gwasanaeth.</i> The Mayor and Mayoress attended the service.
207	Teenage Cancer Trust Cymru: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial aid.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion: Mawrth, 2019.</i> <i>To be discussed at the Grants Sub-committee: March 2019</i>
208	Western Power Distribution: <i>Taliad / Wayleave payment (King George V Playing Field) = £3.48</i>	<i>Nodwyd.</i> Noted.
209	Tai Aberteifi Cyf.: <i>Prydles newydd am hurio'r swyddfa (7a 36 Pendre):</i> Renewal of lease for the rent of the council office (7a 36 Pendre) for three years from 1 March 2019 until 28 February 2022.	<i>Ychwanegir y canlynol: The following is added:</i> <i>"The Annual Rent and Other Payments: The Tenant shall pay all rates..." (5.4).</i> <i>I'w drafod yng nghyfarfod y Gyllideb.</i> To be discussed at the Budget meeting.
210	The Pensions Regulator: <i>Diweddariad.</i> Update of minimum pension contributions from 6 April 2019 (no further action is required).	<i>Nodwyd.</i> Noted.

<b>Andrew Ginn:</b>	<i>Rheolwr Gweithrediadau / Operations Manager</i>
<b>Eifion Jones:</b>	<i>Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus – Arfordir a Chefngwlad</i> <i>Public Rights of Way Officer – Coast and Countryside</i>
<b>Elin Jones:</b>	<i>Swyddog Adain Cau Ffyrdd / Road Closures Officer</i>
<b>Gari Jones:</b>	<i>Peiriannydd Cynorthwyol Strategaeth Trafnidiaeth / Assistant Engineer Transport Strategy</i>
<b>Matthew Collins:</b>	<i>Peiriannydd Cynorthwyol a Rheoli Traffig / Traffic Management and Strategy Assistant</i>
<b>Simon Bray:</b>	<i>Peiriannydd Goleuadau Strrydoedd / Street Lighting Engineer</i>
<b>Stephen Johnson:</b>	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol / Head of Financial Service</i>

- 11. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.**  
Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.  
**Ni chynhaliwyd cyfarfod yr is-bwyllgorau ym mis Rhagfyr.**  
The Sub-committee meeting was not held in December.
- 12. Datganiad chwarterol gan y Maer am ddiogelwch cadwyni'r cyngor.**  
Quarterly statement by Mayor regarding safeguarding chains of office.  
**Sicrhaodd y Maer bod y ddwy gadwyn yn ddiogel.**  
The Mayor confirmed that both chains were in safe custody.

**13. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.**  
Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) **Y Cyng. / Cllr Yvonne O'Neill:**

- (i) **Cyflwr y grisiau o'r ffordd fawr i lwybr yr afon.**  
**Cytunwyd bod y cyngor yn gofyn i Gerwyn Jones, Rheolwr Strydlun Trefol y cyngor sir, i archwilio'r safle ac i ystyried gosod rheiliau i gynorthwyo cerddwyr. Gwirfoddolodd y Cyng. Graham Evans i lanhau'r grisiau unwaith eto.**

The hazardous condition of the steps leading from the road to the river pathway. It was agreed to write to Gerwyn Jones, Urban Streetscene Manager with the county council, requesting a site visit and to consider placing a handrail for pedestrians.

- (ii) **Cyflwr y palmentydd ar Heol Fawr.**  
**Cytunwyd i Bartneriaeth Canol y Dref a'r Masnachwyr drafod y broblem. Awgrymodd y clerc i drafod hefyd gyda'r Bachan Deche am ei sylwadau.**

State of the High Street pavements.

It was recommended to inform the Town Centre Partnership and the Traders of the problem. The clerk agreed to discuss the issue with the Handyperson.

(b) **Y Cyng. / Cllr Clive Davies:**

- (i) **Symud un ciosg tu allan i Neuadd y Dref.**  
**Cytunwyd i'r Cyng. Clive Davies drafod y mater gyda Mr Deian Owen, swyddog gyda chwmni BT.**

Removal of one kiosk outside the Guildhall.

It was agreed for Cllr Davies to discuss the issue with Mr Deian Owen, officer with BT.

- (ii) **Biniau sbwriel newydd yn y dref.**  
**Awgrymodd y Cyng. Davies bod cyngor y dref yn gosod swm tuag at brynu 30 o finiau newydd i'w gosod yn y dref. Cynigiodd y Cyng. Catrin Miles ac eiliwyd gan y Cyng. Trystan Phillips bod y cyngor yn cyfrannu £2,000 yn ystod y flwyddyn gyfredol tuag at y prosiect. Cytunodd y Cyng. Davies gael rhestr o finiau sbwriel sydd yn y dref ac i drafod lleoliadau'r biniau newydd gyda Mr Steve Williams o'r cyngor sir.**

New town litter bins.

Cllr Davies recommended that the town council set aside a sum to purchase 30 new bins to be placed in Cardigan. Cllr Catrin Miles proposed that £2,000 from the current year budget be allocated; this was seconded by Cllr Trystan Phillips. Cllr Davies agreed to obtain a list from Mr Steve Williams and the proposed location of new bins

- (iii) **Diweddariad y camerâu teledu cyfyng.**  
**Dywedodd y Cyng. Davies y caiff y camerâu eu gosod yn y pedwar lleoliad canlynol: Sgwâr Finch, Pendre/Bath House, Stryd Morgan, Stryd y Priordy. Bydd linc ffeibr-optig yn eu cysylltu â Gorsaf yr Heddlu ym Mharc Teifi.**

Update regarding the town CCTV cameras.

Cllr Davies stated that the following locations had been identified for the installation of the four cameras: Finch Square, Pendre/Bath House, Morgan Street, Priory Street. A fibre-optic link will be directly connected to the Police Station at Parc Teifi.

- (iv) **Maes Sgrialu: Diweddariad a chyfansoddiad terfynol.**  
**Derbyniwyd copi o'r cyfansoddiad gan y cyngor. Dywedodd y Cyng. Davies y byddai'r gwaith yn dechrau o ddifri yn ystod y gwanwyn a bod grant sylweddol ar gael. Disgwylir i'r arian sydd yn y gyllideb gael ei drosglwyddo i'r flwyddyn ariannol 2019-20. Mae'r swyddogion wedi cysylltu â'r heddlu ynglŷn â phroblemau fandaliaeth ar y safle.**

Skateboard Park: Update and copy of final constitution.

A copy of the constitution has been received by council. Cllr Davies stated that the work will commence in the spring and that a substantial grant is expected. The funds held in the present year's budget are anticipated to be transferred to the 2019-20 budget.

(c) **Y Clerc / Clerk:**

- (i) **E-bost a chefnogaeth i safiad clerc y cyngor ar ysgrifennu sieciau yn Gymraeg. Gyda phenderfyniad rhai banciau yn ddiweddar i wrthod derbyn sieciau Cyngor Tref Aberteifi oedd wedi eu hysgrifennu'n Gymraeg, cytunodd y cyngor yn unfrydol i gefnogi cais y clerc i barhau i'w hysgrifennu'n Gymraeg. Cynigydd: y Cyng. Graham Evans; eilydd: y Cyng. Yvonne O'Neill. Ychwanegodd y clerc bod aelodau'r cyhoedd wedi ei e-bostio a chysylltu ag ef yn cynnig eu cefnogaeth i'w safiad.**

E-mail and support for the clerk's policy to write all council cheques in Welsh.

With some bank institutions' decision to refuse accepting Welsh-written cheques, the council agreed unanimously to support the clerk's decision to continue writing Cardigan Town Council cheques in Welsh.

Proposed by Cllr Graham Evans and seconded by Cllr Yvonne O'Neill.

The clerk added that members of the public had e-mailed and contacted him with support for his action.

(d) **Y Cyng. / Cllr Siân Maehrlein:**

- (i) **Goleuadau'r stryd yn Felinban.**

**Disgwylir adroddiad oddi wrth Mr Simon Bray, Swyddog Goleuadau'r Strydoedd y cyngor sir.**

Street lights at Felinban.

A report is expected from Mr Simon Bray, the county council Street Lights officer.

- (ii) **Lleoliad y diffibrilwyr yn y dref.**

**Cytunodd y Cyng. Clive Davies baratoi rhestr gyflawn o holl ddiffibrilwyr sydd yn y dref ac i'w chyhoeddi mewn da bryd. Cynhelir hyfforddiant yn y Ganolfan Hamdden nos Lun, 14 Ionawr am 6:00yh.**

Location of defibrillators in town.

Cllr Clive Davies agreed to prepare a list of all defibrillators located in Cardigan.

Training for their use will be held at the Leisure Centre on Monday, 14 January at 6:00pm.

***Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.33yh***

*There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.33pm.*

Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....